Chwarae Plant: Theori ac Arfer

Adran 1

Un o'r dulliau mwyaf hanfodol lle gall plant datblygu sgiliau a gwybodaeth bwysig yw defnyddio chwarae (UNICEF, 2018). Yn yr un modd, hwn yw'r iaith gynhwysfawr plentyndod (Indrayani, 2016). Yn ôl Play Scotland (2024) dyma sut mae plant ifanc yn ymwneud â'r byd o'u cwmpas. Felly, mae plant yn dechrau deall ei gilydd ac yn dechrau cael y wybodaeth am y byd y maent yn byw ynddo. Mae chwarae hefyd yn cyfeirio at weithdrefnau gan gynnwys profi a methu, arsylwi, cysylltu â'r amgylchedd a'r bobl o'u cwmpas, copïo a modelu.

Yn ôl Padayichie (2023) un o ffyrddiau mae plant yn dysgu i ennill gwybodaeth o amgylch y byd y maent yn byw ynddo yw trwy chwarae creadigol. Mae'r blynyddoedd cynnar â chwarae creadigol yn galluogi plant ifanc i ddatblygu sgiliau hanfodol i helpu datrys problemau (Playdale, d.d.). Mae chwarae creadigol yn helpu twf gwybyddol plant i gynyddu ochr yn ochr â'u datblygiad deallusol, tra'n eu galluogi i ganolbwyntio a gwerthuso sut mae pethau'n gweithio o'u cwmpas (Winfield, 2023). I ddilyn, awgryma Rhino Play (2018) mae gan chwarae creadigol lawer o fanteision sy'n helpu plant i ddatblygu'n dda yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae'r rhain yn cynnwys hyder cymdeithasol ac unigol, deall amrywiaeth o amgylcheddau, canolbwyntio, cydsymud llaw-llygad ac archwilio eu dychymyg. Mae Gajdamaschko (2006) yn amlygu bod vygotsky yn credu bod chwarae creadigol ac archwiliadol yn bwysig, gan fod Vygotsky yn ystyried y dychymyg twf fel ffactor yn natblygiad ethnig personoliaeth y plentyn. Dywed ei fod mewn lleoliad ysgol yn effeithio ar ddatblygiad cyfannol, er enghraifft personoliaeth, yn ddeallusol, ymddygiadau a strategaethau i adnabod a dehongli'r byd. Mae Bruner yn cytuno â Vygotsky gan ei fod o'r farn y dylai'r cwricwlwm adolygu'r syniadau a'r gweithgareddau cynradd hyn, gan eu hatgyfnerthu'n raddol nes bod y plentyn yn eu hadnabod yn llwyr sy'n cysylltu â'i gwricwlwm troellog. Roedd hefyd yn teimlo ei bod yn hanfodol bod gan blant wybodaeth am 'egwyddorion sylfaenol', sy'n cysylltu meddyliau o fewn themâu (Bradford VTS, d.d.).

Dywed NHS Greater Glasgow and Clyde (2017) mae plant yn ymchwilio'r byd trwy chwarae. Gan ddefnyddio chwarae archwiliadol, maent yn ennill gwybodaeth ar sut y gallent ddylanwadu ar eu hamgylchedd. Mae chwarae archwiliadol yn cynnwys, gwneud defnydd

o'u holl synhwyrau trwy arsylwi, teimlo â'u cegau a'u dwylo a gwrando. Gellir defnyddio chwarae anniben, tywod a dŵr ar gyfer chwarae archwiliadol hefyd. Mae'r plant yn cael cynnig cyfleoedd i archwilio wrth gyflenwi â gwrthrychau dydd i ddydd ac organig, er enghraifft rhubanau, cerrig ac offer coginio. Nid oes unrhyw ddefnydd anghywir neu gywir i chwarae archwiliol ac mae'n galluogi plant i ddeall ffyrdd o'u trin yn gywir ac yn anghywir. Gall y gweithgareddau hyn arwain at ddatblygu sgiliau canolbwyntio a thyfiant (SIREN Films ltd, d.d.)**.** Yn ogystal, mynna Lynch (2022) mae'n hollbwysig cydnabod bod chwarae archwiliadol yn canolbwyntio ar y weithdrefn, yn hytrach na'r canlyniad terfynol. O fewn y math yma o chwarae, mae tasgau yn ffordd wych o drochi'r plant mewn amrywiaeth eang o anturiaethau.

Mae yna lawer o fanteision o fewn chwarae archwiliadol gan gynnwys, bod yn ddyfeisgar, adeiladu hunan-barch a hyder, sgiliau meddwl yn feirniadol ochr yn ochr â datblygiad gwybyddol a datrys problemau o fewn blynyddoedd cynnar (Anderson-McNamee*, et al,* 2010). Yn ôl Willard (2023) anfantais chwarae greadigol ac archwiliadol yw bod chwarae creadigol yn cynnwys bod yn llawn dychymyg a gweld defnydd lluosog allan o un eitem. Felly, mae meddu ar sgiliau chwarae creadigol ac archwiliadol o safon uchel, yn galluogi plant i ddychmygu y gall llong ofod fod yn gwpan blastig ac y gallai tŵr o flociau fod yn strwythur. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn yn meddu ar y sgiliau hyn a gallent gael trafferth gyda'r mathau hyn o chwarae yn enwedig os nad ydynt yn gyfarwydd, os oes ganddynt hunanhyder a hunan-barch isel, awtistiaeth, iselder ysbryd neu os ydynt wedi profi trawma (Maykel a Kaufman, 2022).

Mae cefnogi plant wrth ymarfer yn sgil bwysig i ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Mae Amin (2022) yn crybwyll y gall fod angen i oedolion fentro i fyd chwarae eu disgyblion. Dywed Zurek*, et al* (2014) mae ymarferwyr yn cymryd rhan mewn sgaffoldio trwy gyflenwi'r amrywiaeth o ffyrdd angenrheidiol o gynorthwyo sy'n addas ar gyfer gofynion y plentyn. Mae hyn yn galluogi'r oedolyn i lyfnhau, sgaffoldio a helpu mewn ffordd na fyddai'n gyraeddadwy tra phell. Gall cwestiynu mewn modd ymchwiliol yn hytrach na chynnig atebion fod yn fwy effeithiol wrth ymestyn meddwl plant i fwy o gyfleoedd. Mae'n effeithiol pan fydd oedolion yn cydweithredu â phlant gan ei fod yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol sy'n annog plant i ddatblygu gwydnwch, cymryd risgiau a chael profiadau o lwyddiant. Bydd angen i oedolion gefnogi a dylanwadu ar chwarae rhydd, fodd bynnag gallent fod yn bryderus am gael llai o reolau. Gallent anelu at osod terfynau a ganiateir sy'n hawdd eu cadw'n rheolaidd. Enghraifft

o hyn fyddai tawelu meddwl plentyn bod mynd yn fwdlyd a gwneud llanast yn cael ei ganiatáu. Mae hyn yn galluogi'r plentyn i deimlo'n hapus ac yn hyderus wrth fod yn greadigol (Family Action, 2022).

Adran 2

Mae Russell (2024) yn esbonio bod chwarae hunan cyfeiriedig yn darparu cyfleoedd unigryw i blant arwain o fewn eu profiadau trwy ddysgu. Mae'n caniatáu iddynt ymchwilio i'r hyn sy'n eu gwneud yn angerddol a'r hyn sydd o ddiddordeb iddynt mewn amgylchedd diogel. Mae gan blant arddulliau a chyflymder dysgu unigol, ac mae chwarae hunan cyfeiriedig yn eu galluogi i ennill gwybodaeth ar eu cyflymder eu hunain. Yn yr un modd, yn ôl Twinkl (d.d) mae chwarae hunan cyfeiriedig yn sicrhau plant bod eu barn a'u meddyliau yn rhesymol a defnyddiol. Mae chwarae hunan cyfeiriedig yn bwysig i blant yn y blynyddoedd cynnar oherwydd yn ôl Juster (2015) mae'n annog datblygiad cyfannol y plentyn gan gynnwys sgiliau corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol sy'n cynorthwyo gyda chyflawniadau ysgol. Ochr yn ochr â hyn, mae chwarae hunan cyfeiriedig hefyd yn cryfhau hunan-barch, hyder, datrys problemau, annibyniaeth, dychymyg a chymhelliant (Ledendecker, 2020). Mae chwarae nid yn unig yn effeithiol ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Awgryma Play Wales (2015) "its effects are felt far into adulthood", o ganlyniad, mae'r effaith o chwarae yn parhau yn y dyfodol ar gyfer datblygu gwytnwch, sy'n cael dylanwad mawr ar eu lles.

Mae yna lawer o safonau i ymarferwyr eu dilyn wrth gweithio gyda phlant. Mynna National Occupational Standards (2023) mae'n bwysig bod chwarae hunan-gyfeiriedig i blant yn cael ei gefnogi. Un enghraifft o hyn yw sut mae ymarferwyr "plan and prepare an inclusive play work setting" sy'n eu galluogi i addasu chwarae i fod yn berthnasol i anghenion y plant a'u helpu i gymryd yr awenau yn eu chwarae eu hunain. Yn ôl Department for Education (2023) mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ochr yn ochr â phlant ifanc sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer datblygiad y plentyn yn y tri chategori cynradd. Mae'r cyfnodau dysgu penodol yn rhoi cwricwlwm eang iddynt gyda chyfleoedd i helpu eu prif feysydd dysgu i gryfhau. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer eu geirfa estynedig a datblygiad iaith (Minsterley Primary Education, 2017). Gall chwarae fod yn fwyaf buddiol pan gaiff ei ystyried fel agwedd at dasg ac yn seiliedig ar ddiffiniad o chwarae o safbwynt y plentyn oherwydd dadl McInnes *et al* (2013) gall chwarae fod â'r fantais fwyaf pan gaiff ei weld fel ffordd o ymdrin â thasgau,

gan ganolbwyntio ar esboniad o chwarae o olwg y plentyn. Yn y modd hwn, bydd y plentyn yn gweld y tasgau fel chwarae yn hytrach na gwaith sy'n arwain at fwynhau ac eisiau dysgu mwy. Dywed McInnes (2013) mae chwareusrwydd yn cyfeirio at ffordd plentyn o feddwl am chwarae ac ymdrin â gweithgareddau, ac mae'n hanfodol ar gyfer dysgu a datblygiad gan ei fod yn hybu cymhelliant, ymgysylltiad, brwdfrydedd a hyblygrwydd. Felly, wrth dilyn theori Bruner sef theori troellog, trwy atgyfnerthu eu dysgu, gall plant wneud cynnydd trwy ailymweld â gweithgareddau ac ailfeddwl syniadau sy'n gyfarwydd a gweithio arnynt i'w gwella (Currell, 2022).

Awgryma Schlesinger *et al* (2020) mae chwarae'n effeithiol gan ei fod yn cynnwys pleser, gweithredu, bod yn hyblyg ac ymgysylltu'n weithredol, rhyngweithio'n gymdeithasol a strwythur. Mae hyn yn galluogi plant i reoli eu symudiad eu hunain ac i symud yn rhydd. Mae gwerthusiadau strwythuredig o bolisïau ymddygiad a chael eich hyfforddi i ddefnyddio lleferydd yn adeiladol ochr yn ochr ag archwilio arferion a safbwyntiau unigol yn nodweddion model rôl dda (Isaacs, 2024). I ddilyn, dyweda Barber (2019) mae cael hyfforddiant yn hanfodol oherwydd ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, mae'n bwysig bod gwybodaeth dda am ddatblygiad plant er enghraifft cerrig milltir, damcaniaethau, ymlyniad, y ffordd y mae plant yn gweithio sy'n gysylltiedig â datblygiad. Mae hyn nid yn unig yn ein helpu i ddysgu mwy am y plant ond hefyd yn ein galluogi i ddiwallu anghenion y plentyn yn effeithiol wrth iddynt oll ddatblygu ar gyflymder gwahanol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2017) darperir gofal plant a chwarae o safon uchel ymhlith gweithwyr y blynyddoedd cynnar pan ddarperir sgiliau a gwybodaeth iddynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bob plentyn, yn benodol y rhai sy'n anabl, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig. I sicrhau bod rhieni neu gofalwyr a'u plant ynghyd â gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar eraill yn hyderus yn eu gallu i fod yn hawdd siarad â nhw a bod ganddynt sgiliau gwrando da gan fod gan weithwyr mewn lleoliadau gofal plant ddyletswydd i ddangos ymddygiad priodol a phroffesiynol bob amser (WJEC, 2019). Yn ogystal â sicrhau bod y lleoliad yn agored ac yn addas ar gyfer y plant, mae rhyngweithio cryf hefyd yn helpu'r plant i deimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn saff. Rhyngweithio cryf yw pan fydd ymarferwyr "encouraging, questioning, recalling; providing a narrative for what they are doing; facilitating and setting challenges" (Cumbria County Council, C.C.C, 2021). C.C.C. (2021) yn amlygu bod pant yn dysgu o

ryngweithio, gan ei fod yn dangos bod gan yr ymarferwr ddiddordeb yn y plentyn gan iaith y corff, cyfathrebu a mynegiant yr wyneb a all gael ei ddylanwadu gan ei arweiniad sy'n helpu'r plentyn i fod yn barod i ddysgu mwy.

Mae'r cylch chwarae yn hawdd i'w dorri trwy syrthio i hen arferion ac eisiau neidio'n syth i mewn i helpu ac addysgu'r plant. Fodd bynnag, mae'n hanfodol dilyn y cylch chwarae gymaint ag y gallwch achos cred King (2022) bod y cylch chwarae yn cael ei ddefnyddio yn y blynyddoedd cynnar. Mae yna chwech elfen sy’n caniatáu defnydd sy’n gyson ac yn ddealladwy ar gyfer ymarfer ac addysg broffesiynol. Yn ogystal, mae’r cylch chwarae yn ffordd ddyfeisgar o syml ac eto hynod ddiddorol o ddarlunio proses chwarae’r plentyn gan ei fod yn ffordd hawdd i’w dilyn i ganiatáu i ymarferwyr fod yn fodel rôl dda a pheidio â cholli unrhyw beth a fydd yn effeithio ar ddatblygiad y plentyn (Oxfordshire County Council, d.d).

Adran 3

Yn ôl Llywodraeth cynlluniad Cymru (2008) mae cyfleoedd i arsylwi plant fod yn weithdrefn allweddol o arferion dydd-i-ddydd staff sy’n gweithio yn y cyfnod sylfaen. Dylai arsylwi fod yn sail i'r polisi asesu cyffredinol o fewn yr ysgol neu'r lleoliad ac ni ddylai fod yn annibynnol. Dywed PACEY (2016) o fewn ymarfer blynyddoedd cynnar, mae arsylwi yn agwedd hanfodol sy’n cyfrannu at ddealltwriaeth o ofynion penodol pob plentyn unigol, gan ei fod yn cynnig cyfleoedd i ennill gwybodaeth am nodweddion unigryw pob plentyn. Ymhellach, awgryma Louis (2022) bod Froebel yn mynnu bod ymarferwyr yn archwilio'r ffordd y mae plant yn ehangu eu dysgu unigol trwy eu diddordebau, profiadau, synhwyrau a'u hannibyniaeth. Yn yr un modd, dylai arsylwi fod yn anffurfiol ac yn ffurfiol wrth i ymarferwyr weithio gyda phlant. Byddai diffyg arsylwi yn arwain at baratoi yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn a ystyriwyd yn ddiddorol, yn bwysig neu'n hwyl. Fodd bynnag, gallai olygu nad yw anghenion y plentyn unigol yn cael eu diwallu ond, yn bwysig, mae arsylwi plant yn rheolaidd yn effeithiol gan ei fod yn sicrhau mai’r plentyn yw’r prif ffocws bob amser a bod y dull plentyn-ganolog yn cael ei fabwysiadu (West Sussex County Council, 2021).

Mae yna lawer o ffyrdd y gall ymarferwyr arsylwi plant mewn lleoliadau addysgol. Un o'r rhain yw trac amser. Yn ôl Neaum (2016) mae’r trac amser yn cynnwys ysgrifennu adroddiad byr o arsylwi plentyn gydag egwyl o 10-15 munud. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd am amlinelliad eang gan y gall yr asesiad gynnwys amrywiaeth o ddatblygiadau

priodol. Yna, mae’r trac amser yn ddull effeithiol o arsylwi ymddygiad cyflawn y plentyn i werthuso ei weithredoedd dyddiol arferol, ac i amlygu pa mor aml y maent yn digwydd (Siren, d.d).

Cred The University of Kansas (2024) mantais hanfodol o gofnodi’r broses hon yw ei fod yn amcangyfrif yr ymddygiad yn lle cofnodi pob digwyddiad, ac nid yw’n anodd ei ddefnyddio o fewn dosbarth. Yn ogystal, mae trac amser hefyd yn cynnig dangosyddion o beth mae'r plant yn hoffi, gan gynnwys eu diddordebau a’u chwarae, gellir addasu’r gwaith papur i weddu i ofynion cynlluniau unigol a gall gynnig awgrymiadau ynglŷn â’r meysydd y maent yn cael trafferth â nhw sy’n amlwg trwy osgoi (Rainbow Nursery, 2010). Fodd bynnag, myna Brodie (2024) mae'r anfanteision arsylwi hyn yn cynnwys yr angen i gynnal arsylwadau yn rheolaidd sydd fewn amgylchedd llif rhydd yn heriol oherwydd bydd rhaid gwylio'r cloc yn barhaus a chael ei gyfyngu i gadw cofnodion yn unig o'r digwyddiadau sy'n digwydd o fewn yr amser penodedig (Siren, d.d).

O fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, mae’n bwysig arsylwi ym mhob man chwarae gan gynnwys ardaloedd chwarae yn yr ystafell ddosbarth (Peterson a Elam, 2020). Noda Llywodraeth Cynlluniad Cymru (2008) trwy arsylwi plant wrth iddynt gymryd rhan mewn chwarae, mae ymarferwyr yn gwerthuso datblygiad sgiliau a hoffterau personol y plant yn naturiol gan fod plant yn teimlo fwyaf cyfforddus a hyderus wrth chwarae. Mae cwricwlwm blynyddoedd cynnar newydd Cymru yn seiliedig ar chwarae. Awgryma Llywodraeth Cymru (2015) mae gweithgareddau ymarferol yn galluogi plant i ennill gwybodaeth trwy gyfleoedd gan gynnwys chwarae. Mae chwarae’n caniatáu i blant arbrofi, datrys problemau, dewis yn unigol, cymryd risgiau a dysgu’n hyderus. Yn ogystal, Equal Education Partners (2023) yn amlygu bod y cwricwlwm newydd yn rhoi cyfleoedd i leoliadau addysgol ddefnyddio’r pedwar diben fel pwynt i ddechrau dod yn iach, yn uchelgeisiol, yn foesegol ac yn fentrus.

Adran 4

Awgryma Forman a Hall (d.d) fod er mwyn gallu deall plant a'u diddordebau, mae'n hanfodol eu harsylwi wrth iddynt chwarae. Gall ymarferwyr ennill dealltwriaeth o sgiliau, gwybodaeth, diddordebau ac anghenion unigol trwy arsylwi chwarae a gallant hefyd helpu i adnabod y ffyrdd y mae plant yn dysgu a galluogi addasu’r cwricwlwm i gefnogi eu datblygiad a’u

hanghenion dysgu oherwydd pe na bai ganddynt ddiddordeb, byddai'n anodd gweld eu twf naturiol (Louis, 2020).

Mae arsylwi wrth chwarae yn rhyddhau straen a phryder i'r plant achos, yn ôl The Early Years Foundation Phase (2007) pan fydd plant yn cymryd rhan ac yn archwilio anghenion chwarae, dysgu a datblygu, cymryd rhan ymarferol bendant mewn gweithgareddau yn hytrach na thasgau ffurfiol sy'n arwain at ymddygiad aflonyddgar. Mae chwarae'n brofiad trawsnewidiol sy'n annog gwydnwch a'r potensial i ddelio â heriau a straen (Play Scotland, 2020). Yn ogystal, mae'r arweiniad a'r cyfleoedd ar ran chwarae plant yn hanfodol i dwf eu sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol i ymdopi â'u pryderon (Whitebread, 2012).

Dywed West Sussex County Council (2022) bod oedolion yn arsylwi ac yn ymateb i anghenion y plentyn 'yn y foment', trwy gymryd rhan gyda nhw, i gynorthwyo a chefnogi dysgu, ochr yn ochr â chaniatáu amser iddynt ymchwilio heb i'r oedolyn dorri ar eu traws a'u hannog. Mae penderfyniadau a wneir gan oedolion yn cael eu cyfeirio gan wybodaeth ac yn llywio dewisiadau ynghylch cofnodi a dogfennu arsylwadau trwy ystyried anghenion y plentyn unigol (Birth to 5 Matters, 2021). Yna, dywed Birth To 5 Matters (d.d) mae ymarfer blynyddoedd cynnar sy'n effeithiol yn dechrau gydag arsylwadau, deall y plentyn a ffurfio perthynas gadarnhaol o blegid, mae meddu ar wybodaeth dda am ddatblygiad plentyn sy'n wybodus yn cyfrannu at ddealltwriaeth o hoffterau, dysgu a datblygiad plant a pharatoadau ar gyfer y dyfodol.

Mynna Howard a McInnes (2012) bod plant yn dangos cynnydd yn eu lles emosiynol pan fyddant yn gweld gweithgaredd fel chwarae yn lle gwaith. Mae National Institue for Health and Clinical Excellence (2008) yn cytuno â hyn oherwydd eu bod yn datgan "Good emotional well-being can protect children against a variety of problems in the future including: emotional and behavioural problems violence and crime and teenage pregnancy". Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn cyd-fynd â theori anghenion Hierachaeth Maslow lle mae'n dangos bod angen diwallu anghenion penodol gan fod Mcleod (2024) yn amlygu bod Maslow yn dadlau ei bod yn hanfodol bod anghenion goroesi plant yn cael eu cyflawni cyn y gallant gyrraedd y rhai sy'n cael eu dyrchafu.

Gall mwynhau gweithgaredd a chael diddordeb ynddo fod yn gam cadarnhaol tuag at lwyddiant plant yn y dyfodol achos cred Howard a McInnes (2012) plant sy'n cymryd rhan

mewn gweithgaredd wedi'i gynllunio a'i ystyried yn chwarae, wedi arwain at lefel uwch o ymgysylltiad a ffocws, mynegiant wyneb cadarnhaol er enghraifft gwenu a symud yn wirfoddol lle, fel y rhai a oedd yn gweld y gweithgaredd fel tasg, yn ddisylw, yn llais negyddol ac yn dewis i eistedd yn llonydd yn hytrach nag addasu eu symudiad.

Cyfeirnodi

Amin, R. (2022) *Children's Health.* Ar gael o: https://www.pentagonplay.co.uk/news-and-info/adult-support-for-childrens-play#:~:text=An%20adult%20can%20help%20a,take%20notice%20of%20their%20play (Darllenwyd: 12 Chwefror 2024).

Anderson-McNamee, J.K. a Bailey, S.J. (2010) *The Importance of Play in Early Childhood Development.* Ar gael o: https://www.montana.edu/extension/health/documents/MT201003HR.pdf (Darllenwyd: 18 Chwefror 2024).

Barber, J. (2019) *How can knowledge of child development inform your approach to Intent, Implementation and Impact?* Ar gael o: https://eyfs.info/articles.html/teaching-and-learning/how-can-knowledge-of-child-development-inform-your-approach-to-intent-implementation-and-impact-r261/#:~:text=Child%20development%20is%20essential%20knowledge,will%20flourish%20and%20be%20happy (Darllenwyd: 25 Chwefror 2024).

Bradford VTS. (d.d) *Bruner's Spiral Curriculum for Teaching & Learning Summary Overview.* Ar gael o: https://www.bradfordvts.co.uk/wp-content/onlineresources/teaching-learning/curriculum/spiral%20curriculum%20and%20bruner.pdf (Darllenwyd: 11 Chwefror 2024).

Birth To 5 Matters. (d.d) *Observation, assessment and planning.* Ar gael o: https://birthto5matters.org.uk/observation-assessment-and-planning/ (Darllenwyd: 7 Mawrth 2024).

Birth to 5 Matters. (2021) *Learning and Development Observation, assessment and planning.* Ar gael o: https://www.birthto5matters.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Explaining-the-OAP-Cycle.pdf (Darllenwyd: 8 Mawrth 2024).

Brodie, K. (2024) *Observations in early years – Different types, why they are important and examples.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/making-observations#:~:text=In%20a%20time%20sample%20observation,involvement%20at%20that%20particular%20time (Darllenwyd: 1 Mawrth 2024).

Cumbria County Council. (2021) *Effective Interactions in the Early Years.* Ar gael o: https://www.cumbria.gov.uk/elibrary/Content/Internet/537/1459/7037/18082/18084/44453113513.pdf (Darllenwyd: 27 Chwefror 2024).

Currell, J. (2022) *How to put Bruner's key theories into teaching practice.* Ar gael o: https://mathsnoproblem.com/blog/teaching-tips/jerome-bruner-theories-put-into-practice#:~:text=Throughout%20our%20lives%2C%20we%20all,in%20light%20of%20new%20discoveries (Darllenwyd: 8 Mawrth 2024).

Department for Education. (2023) *Early years foundation stage statutory framework.* Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65aa5e42ed27ca001327b2c7/EYFS_statutory_framework_for_group_and_school_based_providers.pdf (Darllenwyd: 22 Chwefror 2024).

Equal Education Partners. (2023) *Curriculum for Wales: The Four Purposes.* Ar gael o: https://equaleducationpartners.com/blog/curriculum-for-wales-the-four-purposes/#:~:text=Ambitious%2C%20capable%20learners%20ready%20to,as%20valued%20members%20of%20society (Darllenwyd: 4 Mawrth 2024).

Family Action. (2022) *The role of adults in supporting children's play.* Ar gael o: https://www.family-action.org.uk/our-voices/2022/09/19/adults-role-helping-children-play/ (Darllenwyd: 14 Chwefror 2024).

Forman, G. a Hall, E. (d.d) *Wondering with Children: The Importance of Observation in Early Education.* Ar gael o: https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1084856.pdf (Darllenwyd: 5 Mawrth 2024).

Gajdamaschko, N. (2006) 'Theoretical Concerns Vygotsky on Imagination Development', *Educational Perspectives,* 19(2).

Howard, J. a McInnes, K. (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not a play on emotional well-being', *Child: care, health and development,* 39(5), pp. 737-742. doi.org/10.1111/j.1365-2214.2012.01405.x

Indrayani, N. (2016) 'Language Development at Early Childhood', *International Conference on Education,* 1, pp. 279-289.

Isaacs, B. (d.d.) *Positive role models – How to be one in Early Years.* Ar gael o: https://www.teachearlyyears.com/positive-relationships/view/being-a-positive-role-model (Darllenwyd: 24 Chwefror 2024).

Juster, A.H. (2015) *The Amazing Benefits Of Self-Directed Play.* Ar gael o: http://www.beactivekids.org/assets/pdf/MorganLeichterSaxby.pdf (Darllenwyd: 15 Chwefror 2024).

King, P. (2022) 'A Theoretical Expansion of the Play Cycle', *American Journal of Play,* 14(2), pp.173-187.

Ledendecker, M. (2020) *Why encourage self-directed play?* Ar gael o: https://www.berkshiremontessori.org/msb-blog/self-directed-play (Darllenwyd: 16 Chwefror 2024).

Louis, A. (2020) *Why observe children at play?* Ar gael o: https://www.himama.com/blog/why-observe-children-at-play/#:~:text=Educators%20and%20parents%20should%20observe,environment%20we%20are%20surrounded%20by (Darllenwyd: 5 Mawrth 2024).

Louis, S. (2022) *Observing young children.* Ar gael o: https://www.froebel.org.uk/uploads/documents/FT_Observing-young-children_Pamphlet_INTERACTIVE_REV-2.pdf (Darllenwyd: 29 Chwefror 2024).

Lynch, M. (2022) *Exploratory play: Everything you need to know.* Ar gael o: https://www.theedadvocate.org/exploratory-play-everything-you-need-to-know/ (Darllenwyd: 11 Chwefror 2024).

Llywodraeth Cymru. (2017) *Childcare, Play and Early Years Workforce Plan.* Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-12/early-years-workforce-plan.pdf (Darllenwyd: 27 Chwefror 2024).

Llywodraeth Cynlluniad Cymru. (2008) *Observing Children.* Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/74f7c7cc-d337-4fd0-9604-27b3d1a5746d/observing-children.pdf (Darllenwyd: 28 Chwefror 2024).

Llywodraeth Cymru. (2015) *Curriculum for Wales: Foundation Phase Framework.* Ar gael o: https://hwb.gov.wales/storage/d5d8e39c-b534-40cb-a3f5-7e2e126d8077/foundation-phase-framework.pdf (Darllenwyd: 4 Mawrth 2024).

Maykel, C. a Kaufman J.C. (2022) 'The Assessment of Creativity for People with Autism Spectrum Disorder', *Psychology in the Schools,* 60, pp. 1522. DOI:10.1002/pits.22729

McInnes, K., Howard, J., Crowley, K. a Miles, G. (2013) 'The nature of adult-child interaction in the early years classroom: Implications for children's perceptions of play and subsequent learning behaviour', *European Early Childhood Education Research Journal,* 21(2), pp. 268-282. https://doi.org/10.1080/1350293X.2013.789194

Mcleod, S. (2024) *Maslows Hierachy of Needs.* Ar gael o: https://www.simplypsychology.org/maslow.html (Darllenwyd: 7 Mawrth 2024).

Minsterley Primary Education. (2017) *The school curriculum.* Ar gael o: https://minsterleyschool.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/The-School-Curriculum.pdf (Darllenwyd: 22 Chwefror 2024).

National Institute for Health and Clinical Excellence. (2008, dyfynnwyd Howard a McInnes, 2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not a play on emotional well-being', *Child: care, health and development,* 39(5), pp. 737-742. doi.org/10.1111/j.1365-2214.2012.01405.x

National Occupational Standards. (2023) *Create playwork settings that support freely chosen self-directed play.* Ar gael o: https://play.wales/wp-content/uploads/2023/02/NOS-Playwork-Playwork-Practitioner.pdf (Darllenwyd: 17 Chwefror 2024).

Neaum, S. (2016) *Child Development for Early Years Students and Practitioners.* 3rd edn. London: SAGE publications.

NHS Greater Glasgow and Clyde. (2017) *Explorative Play.* Ar gael o: https://www.nhsggc.org.uk/kids/life-skills/play-leisure/explorative-play/#:~:text=Exploratory%20play%20involves%20the%20child,sand%2C%20water%20and%20messy%20play (Darllenwyd: 10 Chwefror 2024).

Oxfordshire County Council (d.d) *The Play Cycle.* Ar gael o: https://www.oxfordshire.gov.uk/sites/default/files/file/working-early-years-out-school/theplaycycle.pdf (Darllenwyd: 27 Chwefror 2024).

PACEY. (2016) *Child observations and learning journeys.* Ar gael o: https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG05-Child-observations-learning-journeys.pdf (Darllenwyd: 28 Chwefror 2024).

PBS. (d.d.) *Creativity and Play: Fostering Creativity.* Ar gael o: https://www.pbs.org/wholechild/providers/play.html#:~:text=children%20with%20disabilities.-,Creative%20Play,role%2Dplaying%20and%20imaginative%20play (Darllenwyd: 9 Chwefror 2024).

Peterson, G. a Elam, E. (2020) *Observation and Assesment.* Ar gael o: https://www.childdevelopment.org/docs/default-source/pdfs/observation-and-assessment-english2-8-20.pdf?sfvrsn=1e9226c1_2 (Darllenwyd: 3 Mawrth 2024).

Playdale. (d.d., dyfynnwyd Padayichie, 2023) *Creative Play.* Ar gael o: https://www.structural-learning.com/post/creative-play (Darllenwyd: 8 Chwefror 2024).

Play Scotland. (2020) *The Power of Play for Children and Young People's Positive Mental Health.* Ar gael o: https://ltl.org.uk/wp-content/uploads/2022/05/the-power-of-play-for-childrens-positive-mental-health.pdf (Darllenwyd: 6 Mawrth 2024).

Play Scotland. (2024) *What is Play?* Ar gael o: https://www.playscotland.org/learn/what-is-play/ (Darllenwyd: 7 Chwefror 2024).

Play Wales. (2015) *Building resilience – the importance of playing.* Ar gael o: https://www.merthyrfis.org/media/1805/building-resilience-the-importance-of-playing.pdf (Darllenwyd: 16 Chwefror 2024).

Rainbow Nursery. (2010) *Time Sampling and Frequency Counts.* Ar gael o: https://rainbow-nursery.info/wp-content/uploads/2017/12/1-Time-Sampling-Frequency-Counts.pdf (Darllenwyd: 1 Mawrth 2024).

Rhino Play. (2018) *The Benefits Of Creative Play.* Ar gael o: https://rhinoplay.co.uk/news/the-benefits-of-creative-play/ (Darllenwyd: 10 Chwefror 2024).

Rusell, L. (2024) *The Importance of Child Directed Play: Parent Guide.* Ar gael o: https://www.theyarethefuture.co.uk/child-directed-play/#:~:text=Self%2Ddirected%20play%20is%20a,in%20a%20safe%2C%20supportive%20environment.&text=Children%20can%20explore%20their%20interests%20and%20passions (Darllenwyd: 15 Chwefror 2024).

Schlesinger, M.A., Hassinger-Das, B., Zosh, J.M., Sawyer, J., Evans, N. a Hirsh-Pasek, K. (2020) 'Cognitive Behavioral Science behind the Value of Play: Leveraging Everyday Experiences to Promote Play, Learning, and Positive Interactions', *Journal of Infant, Child, and Adolescent Psychotherapy.* 19(2), pp.202-216, DOI: 10.1080/15289168.2020.1755084

SIREN Films ltd. (d.d.) C*hild Observation no. 6 Exploratory Play.* Newcastle upon Tyne: Siren.

SIREN Films ltd. (d.d.) *Child Observation No. 7 Time & Event Sampling.* Newcastle upon Tyne: Siren.

The Early Years Foundation Stage. (2007) *Effective practice: Play and Exploration.* Ar gael o: https://www.birthto5matters.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/Playing-and-Exploring.pdf (Darllenwyd: 6 Mawrth 2024).

The university of Kansas. (2024) *Momentary Time Sample Recording.* Ar gael o: o: https://specialconnections.ku.edu/assessment/data_based_decision_making/teacher_tools/momentary_time_sample_recording#:~:text=A%20major%20disadvantage%20of%20this,the%20occurrence%20of%20a%20behavior (Darllenwyd: 1 Mawrth 2024).

Twinkl (d.d) *What are different types of play in early years?* Ar gael o: https://www.twinkl.co.uk/teaching-wiki/different-types-of-play-in-early-years (Darllenwyd: 15 Chwefror 2024).

UNICEF. (2018) *Learning through play.* Ar gael o: https://www.unicef.org/sites/default/files/2018-12/UNICEF-Lego-Foundation-Learning-through-Play.pdf (Darllenwyd: 7 Chwefror 2024).

West Sussex County Council. (2021) *Effective Practice: Observation, Assessment and Planning.* Ar gael o: https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf (Darllenwyd: 29 Chwefror 2024).

West Sussex County Council. (2022) *Adult role throughout the Learning Environment.* Ar gael o: https://www.westsussex.gov.uk/media/5550/adult_role_learning_environment.pdf (Darllenwyd: 7 Mawrth 2024).

Whitebread, D. (2012) T*he importance of play.* Ar gael o: https://www.csap.cam.ac.uk/media/uploads/files/1/david-whitebread---importance-of-play-report.pdf (Darllenwyd: 6 Mawrth 2024).

Willard, M. (2023) *Lack of Creative Play in Childhood.* Ar gael o: https://cadey.co/articles/creative-play (Darllenwyd: 14 Chwefror 2024).

Winfield, S. (2023, dyfynnwyd Padayichie, 2023) *Creative Play.* Ar gael o: https://www.structural-learning.com/post/creative-play (Darllenwyd: 8 Chwefror 2024).

WJEC. (2019) *Professional Practice as a Childcare Worker.* Ar gael o: http://resource.download.wjec.co.uk.s3-eu-west-1.amazonaws.com/vtc/2018-19/hsc18-19_3-3/_multi-lang/unit05/01-positive-role-modelling-behaviour-in-workplace-social-media-and-misuse.html (Darllenwyd: 26 Chwefror 2024).

Zurek, A., Torquati, J. a Acar, I. (2014) 'Scaffolding as a Tool for Environmental Education in Early Childhood', *International Journal of Early Childhood Environmental Education*, 2(1), pp. 27.